

Adroddiad blynyddol 2020

Cynghorydd M J Kearn Ward: Y Pîl
Plaid Lafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2020. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli ward Y Pîl ym mis Mai 2017, ac yn y flwyddyn adrodd hon rwyf wedi parhau i ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol dros 60 o ymholiadau etholwyr gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill y mae etholwyr wedi gofyn imi eu helpu i'w datrys.

Rwyf wedi siarad ar ran etholwyr y Pîl a Mynydd Cynffig

O ran eu pryderon ar y cyd ynglŷn â'r gwaith ailgylchu arfaethedig yn ystâd ddiwydiannol y Pîl, yn ogystal, rwyf wedi codi pryderon ar ran unigolion.

Fel Cynghorydd Bwrdeistref, hwylusais ymgynghoriad rhwng BCBC a thrigolion lleol ynghylch yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Ysgol Gynradd newydd Mynydd Cynffig.

Cefnogi sefydlu parc chwarae newydd yng Ngwaun Cimla sy'n cael ei ddarparu gan Gyngor Cymuned Y Pîl ac wedi cysylltu â BCBC ar eu rhan.

Cynrychioli materion preswylwyr ynglŷn â'r goleuadau traffig arfaethedig ar hyd yr A48/Heol Mostyn.

Mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd a chysylltu â BCBC a'r heddlu ynghylch traffig yn goryrru ar hyd Marshfield Avenue.

I'm galluogi i fod yn fwy effeithiol yn fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol yn cael ei diweddarau.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau i'w gweld yn [HYPERLINK "<http://www.bridgend.gov.uk>"](http://www.bridgend.gov.uk) www.bridgend.gov.uk Gweithgarwch Etholaethol

Creadigrwydd a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf hefyd yn aelod etholedig o Gyngor Cymuned Y Pîl ac yn mynychu cyfarfodydd misol y cyngor.

Fel aelod o Gyngor Cymuned y Pîl rwyf wedi arwain yr ymgyrch dros ddarparu croesfannau diogel ar hyd y brif ffordd (B4281) drwy Fynydd Cynffig h.y. gyferbyn â Meddygfa Tŷ Heathbridge Stryd y Bont a gyferbyn â Chapel Pisgah, Stryd Pisgah.

Ynghyd â chynghorwyr cymuned etholedig eraill, rwy'n aelod gweithgar o'r Pwyllgor Dydd yr Ŵyl lleol sy'n cynllunio ac yn cydlynu Wythnos yr Ŵyl flynyddol.

Fel aelod etholedig o Gyngor Cymuned BCBC a'r Pîl rwyf wedi mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol yn swyddogol.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Roeddwn yn aelod gweithgar o'r pwyllgor Covid 19 lleol a sefydlwyd gan Gyngor Cymuned Y Pîl i sicrhau bod trigolion lleol yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt yn ystod misoedd cyntaf pandemig Covid 19 h.y. dosbarthu prydau bwyd yn y cartref i'r henoed a'r rhai sy'n agored i niwed gan Ganolfan Gymunedol Talbot, Mynydd Cynffig, cyflenwadau siopa hanfodol a phresgripsiynau.

Cynghorydd M J Kearn Dyddiad: 2020